

## ❖ MYFYRDOD ‘EMANIŴEL, EMANIŴEL’

Wrth gofnodi'n fanwl union amgylchiadau genedigaeth Iesu Grist mae Mathew yn cyfeirio darllenwyr ei Efengyl at broffwydoliaeth o eiddo Eseia: “Wele ferch ifanc yn feichiog, a phan esgor ar fab, fe'i geilw'n Immanuel” (Eseia 7:14). Wrth i Mathew ddyfynnu'r proffwyd fe ychwanega air neu ddau sy'n egluro ystyr enw'r plentyn a anwyd ym Methlehem: ‘hynny yw, o'i gyfieithu, “Y mae Duw gyda ni”’ (Mathew 1:23). Bu'r enw a'r ystyr sydd ymhlyg ynddo yn gysur mawr i genedlaethau o gredinwyr o dan bob math o amgylchiadau. Plygu mewn addoliad o flaen yr Emanŵel a wna'r emynydd ym mhennill cyntaf yr emyn hwn.

Ioan yn y bedwaredd efengyl sy'n cofnodi'r geiriau cyfarwydd o eiddo Iesu, “Myfi yw'r bugail da” (Ioan 10:11). Ar ôl gwneud y fath gyhoeddiad ysgytwol fe eglura Iesu, “Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid.” Yna, yn ddiweddarach yn yr un bennod, cyhoedda drachefn mai ef yw'r “bugail da” (Ioan 10:14), gan ychwanegu, “yr wyf yn adnabod fy nefaid, a'm defaid yn f'adnabod i, yn union fel y mae'r Tad yn f'adnabod i, a minnau'n adnabod y Tad. Ac yr wyf yn rhoi fy einioes dros y defaid.” Gorfoleddu yn y ffaith fod yr Un sy'n “Dduw gyda ni” hefyd yn “fugail da” a wna'r emynydd y tro hwn.

Ioan, awdur y bedwaredd efengyl, sy'n rhoi sylfaen i'r hyn a fynegir yn glir ac yn syml ym mhennill tri: ‘Yna llefarodd Iesu wrthynt eto. “Myfi yw goleuni'r byd,” meddai. “Ni bydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd” ’ (Ioan 8:12). Mor sobr o dywyll fyddai'r rhagolygon i'r ddynoliaeth syrthiedig oni bai am yr Un sy'n “Oleuni'r byd”.

Mae'r emyn syml hwn yn cyrraedd ei binael wrth i'r emynydd blygu mewn addoliad o flaen “Meseia Duw”, sef “Eneiniog Duw”. Mae'r pedwar teitl ysgrythurol a ddefnyddir yn yr emyn yn cyhoeddi gwahanol rinweddau'r unig gyfryngwr “rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu”. Mae'n weddus, felly, ein bod ninnau wrth fyfyrion ar amrywiol rinweddau ei berson a'i waith yn ymgrymu o'i flaen mewn addoliad teilwng.

**Gweddi**

Ti'r Emanŵel unigryw ac anghymharol,  
plygwn o'th flaen mewn addoliad.  
Ti'r Bugail da a roddaist dy einioes drosom,  
ymgrymwn ger dy fron.  
Ti'r hwn sy'n Oleuni'r byd,  
ymguddiwn rhag dy ysblander.  
Ti, Feseia Duw – yr Eneiniog –  
tyred yn nes atom ac amlyga i ni dy ogoniant.  
Hyn a ddeisyfwn yn dy Enw. Amen.

**Wayne Hughes**